# Ewyllysiau a chynllunio ystâd

Cyngor ymarferol ar wneud eich ewyllys a'i diweddaru

age Cymru

Creu Cymru oed gyfeillgar



Age Cymru IG31w

# Ni yw Age Cymru

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru.

Rydym yn ymgyrchu, yn ymchwilio ac yn codi arian er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn creu bywyd gwell i bobl hŷn. Rydym yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, rydym yn herio ac yn newid agweddau, ac rydym yn brwydro yn erbyn gwahaniaethu pa le bynnag y byddwn yn ei weld.

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau a rhaglenni cenedlaethol a lleol yn uniongyrchol i bobl hŷn yn y gymuned, ac yn sicrhau'r safonau gorau fel y gallwch fod yn sicr o gysondeb ac ansawdd pa le bynnag y byddwch yn gweld enw a logo Age Cymru.

Mae ein teulu'n cynnwys partneriaid lleol Age Cymru a phartneriaid cenedlaethol, Age NI, Age Scotland ac Age UK.


Age Cymru
Tŷ Mariners
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd CF24 5TD

**029 2043 1555**
**www.agecymru.org.uk**



Elusen Gofrestredig 1128436

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021



Paratowyd y daflen wybodaeth hon gan Age Cymru ac Age UK, ac mae'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol yn unig, yr ydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi. Ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y daflen hon fel cyngor penodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel sail i wneud unrhyw benderfyniadau na chymryd unrhyw gamau. Nid yw Age Cymru, Age UK nac unrhyw un o'u cwmnïau neu elusennau ategol yn derbyn unrhyw atebolrwydd a ddaw o'i defnyddio. Ein nod yw sicrhau bod y wybodaeth mor gyfredol a chywir â phosibl, ond byddwch yn ymwybodol y gall rhai meysydd penodol newid o bryd i'w gilydd.

# Cynnwys

Beth mae'r canllaw hwn yn ymwneud ag ef **2**

Pam dylech chi wneud ewyllys **4**

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn gwneud ewyllys? **6**

Gwneud ewyllys **8**

Prisio eich ystâd **11**

Beth i'w gynnwys yn eich ewyllys **13**

Llofnodi'r ewyllys **14**


Dewis ysgutorion **15**

Pethau eraill i'w hystyried **20**

Treth Etifeddu **22**

Mae'n hawdd parhau i gefnogi eich hoff achosion drwy adael rhodd yn eich ewyllys **23**

Sefydliadau defnyddiol **24**



# Beth mae’r canllaw hwn yn ymwneud ag ef

**Ysgrifennu ewyllys yw’r unig ffordd i fod yn siŵr y bydd eich dymuniadau’n cael eu parchu ar ôl i chi farw. Efallai nad ydych chi wedi cael cyfle i’w wneud eto neu eich bod wedi osgoi ei wneud yn fwriadol, ond gall y broses fod yn ddigon syml.**

Mae’r canllaw hwn yn amlinellu’r broses ac yn esbonio pam y dylech chi wneud ewyllys a beth fydd yn digwydd os na fyddwch chi’n gwneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys y materion y dylech chi eu hystyried a pha bryd y dylech chi gael cyngor proffesiynol.

Efallai bod gennych chi ewyllys yn barod a luniwyd flynyddoedd yn ôl ac nad ydych wedi meddwl amdani ers peth amser, ond mae’n bwysig eich bod yn adolygu ac yn diweddaru eich ewyllys pob pum mlynedd er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn adlewyrchu eich dymuniadau o hyd.

*“Newidiais i fy ewyllys yn ddiweddar gan fod gennym ni wyres hyfryd newydd.”*
*Jen, 64*

Er ei fod yn cwmpasu llawer o bethau, mae’r canllaw hwn yn cynnwys cyngor cyffredinol yn unig, ac ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor proffesiynol.

Mae’r canllaw hwn yn berthnasol ledled Cymru. Mae fersiwn ar wahân ar gyfer Lloegr, sydd ar gael gan Age UK. I gael gwybodaeth gyfatebol yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, cysylltwch ag Age Scotland ac Age NI, yn ôl eu trefn.

## Camau nesaf

O ran materion cyfreithiol, weithiau, po fwyaf rydyn ni’n ei wybod, y mwyaf rydym yn teimlo bod gennym reolaeth. Os oes eisiau gwybodaeth fanylach arnoch am unrhyw beth yn y canllaw hwn, mae’n werth darllen ffeithlenni Age UK:

- **Gwneud ewyllys**
- **Ymdrin ag ystâd**
- **Cynllunio ar gyfer eich angladd**



# *Pam dylech chi wneud ewyllys*

**Er y gall fod yn anodd siarad am ewyllysiau, etifeddiaeth a beth sy'n digwydd ar ôl i rywun farw, gall sgyrsiau clir ac agored gydag anwyliaid nawr wneud pethau'n haws o lawer yn ddiweddarach.**

### Pam mae'n bwysig gwneud ewyllys?

Mae gwneud ewyllys yn bwysig gan mai dyna'r unig ffordd i wneud yn siŵr fod eich ystâd yn mynd at y bobl a'r achosion rydych chi'n eu dewis.

Eich 'ystâd' yw popeth rydych chi'n berchen arno – eich holl asedau, gan gynnwys eich arian, eich cartref, eich eiddo a'ch buddsoddiadau.

### Camau nesaf

Gweler ffeithlenni Age UK **Gwneud ewyllys, Ymdrin ag ystâd** a **Cynllunio ar gyfer eich angladd** am fwy o wybodaeth, neu cysylltwch â'r llinell gymorth Profiant a Threth Etifeddu (tudalen 26).

Fodd bynnag, mae rhesymau eraill pam y mae'n bwysig i chi a'ch anwyliaid hefyd:

• Mae eich ewyllys yn rhoi sicrwydd i'ch anwyliaid eu bod yn parchu eich dymuniadau ar ôl i chi farw, sy'n gallu gwneud pethau'n haws i bawb dan sylw.

• Mae ewyllys sydd wedi'i hysgrifennu'n briodol yn helpu osgoi anghydfodau hefyd. Gall ewyllysiau sydd wedi'u drafftio'n wael neu sydd wedi dyddio achosi dadlau ymhlith eich anwyliaid, ac efallai y bydd angen i'r anghydfodau hyn gael eu datrys gan gyfreithiwr.

Dylai'ch ewyllys gael gwared ar unrhyw amheuaeth ynghylch pwy yr hoffech i elwa o'ch ystâd, a helpu osgoi mwy o straen i'ch teulu a ffrindiau yn ystod cyfnod sydd eisoes yn anodd.

• Mae eich ewyllys hefyd yn amlinellu pwy yr hoffech chi adael eich cartref, eich arian a'ch eiddo iddynt, fel eich bod yn gwybod bod popeth yn mynd at y bobl a'r achosion sy'n bwysig i chi.

• Mae ewyllysiau'n diogelu'r asedau sy'n ffurfio eich ystâd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd. Gall ewyllys sydd wedi'i strwythuro'n dda sicrhau bod eich asedau'n aros yn y teulu ac yn cael eu pasio ymlaen.

• Gallwch ddefnyddio eich ewyllys i amlinellu penderfyniadau yr hoffech eu gwneud hefyd, fel eich dewisiadau o ran eich angladd. Efallai nad yw hynny'n rhywbeth braf i feddwl amdano, ond gall trefnu angladd fod yn anodd, a gall gwybod yn union sut yr hoffech i bethau gael eu gwneud hwyluso pethau i'ch anwyliaid.

***"Roeddwn i am wneud yn siŵr fod fy mab yn cael yr oriawr y gadawodd fy nhad i mi pan fu farw." David, 69***



# Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn gwneud ewyllys?

Pe byddech chi'n marw heb wneud ewyllys, dywedir eich bod wedi marw 'heb ewyllys'. Yn y sefyllfa hon, bydd eich ystâd yn cael ei rhannu'n unol â rheolau 'diffyg ewyllys'. Mae hyn yn cael gwared ar unrhyw benderfyniadau personol ac yn golygu na fydd gennych chi unrhyw reolaeth dros sut y caiff pethau eu dosbarthu. Bydd eich asedau'n cael eu dosbarthu ar ôl talu eich holl ddyledion, costau'r angladd a chostau gweinyddol, ac unrhyw drethi.

Mae'n debyg iawn bod gennych chi farn ynghylch sut yr hoffech i'ch ystâd cael ei dosbarthu ymhlith eich anwyliaid. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych ewyllys; mae gweddill y canllaw hwn yn esbonio sut y gallwch wneud ewyllys er mwyn osgoi'r rheolau diffyg ewyllys, a phwy y gallwch gysylltu â nhw am gyngor cyfreithiol.

Os byddwch yn marw heb ewyllys, bydd eich ystâd yn cael ei dosbarthu dan reolau diffyg ewyllys. Dywed y rheolau hyn:

• os oes gennych briod neu bartner sifil a phlant, bydd eich priod neu'ch partner sifil yn etifeddu eich holl eiddo personol a £250,000 cyntaf eich ystâd, ynghyd â hanner unrhyw beth uwchlaw'r swm hwnnw. Yna, mae gan eich plant hawl i hanner arall y balans hwn

• os oes gennych briod neu bartner sifil ac nid oes gennych chi blant, bydd eich priod neu'ch partner sifil yn etifeddu eich ystâd gyfan, gan gynnwys unrhyw eiddo personol

• os nad ydych chi a'ch partner wedi priodi nac mewn partneriaeth sifil, nid oes ganddi ef/hi unrhyw hawl awtomatig i etifeddu o'ch ystâd os nad ydych wedi gwneud ewyllys. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych wedi byw gyda'ch gilydd am amser maith neu os oes gennych blant gyda'ch gilydd

• os nad oes gennych briod, partner sifil na phlant, efallai y bydd gan berthnasau eraill, fel brodyr, chwiorydd, nithod a neiaint hawl i etifeddu

• os nad oes gennych unrhyw berthnasau byw sy'n gallu etifeddu dan y rheolau hyn, bydd eich ystâd yn cael ei throsglwyddo i'r Goron.

***"Bu farw dad heb ewyllys. Roedd ceisio deall pwy fyddai'n cael beth braidd yn ddryslyd." Jerry, 70***



# Gwneud ewyllys

**Mae gwneud yn siŵr bod eich ewyllys wedi'i hysgrifennu a'i llofnodi'n briodol yn gwneud pethau'n haws o lawer pan ddaw'r amser i ddosbarthu eich ystâd. Os caiff pethau eu gwneud yn anghywir, gall hyn achosi problemau i'ch anwyliaid eu datrys.**

Wrth ysgrifennu ewyllys, mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn cael cyngor proffesiynol er mwyn osgoi rhai o'r peryglon cyffredin.

## Sut i wneud ewyllys

Gallwch wneud ewyllys mewn nifer o ffyrdd – efallai bod gennych syniad o'r hyn a fyddai'n fwyaf addas i chi, ond mae'n syniad da edrych ar eich holl opsiynau. Mae'r opsiynau hyn yn cael eu hystyried dros yr ychydig dudalennau nesaf.

## Cyfreithwyr

Wrth ysgrifennu ewyllys, mae'n well cael cyngor gan gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn ewyllysiau a phrofiant – er enghraifft, cyfreithiwr neu weithredwr cyfreithiol siartredig. Mae'n bwysig gwirio bod y cyfreithiwr wedi'i r(h)eoleiddio â'r corff proffesiynol perthnasol, fel yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (tudalen 26). Mae cyfreithwyr yn codi tâl

penodedig neu dâl yn ôl yr awr ar gyfer y gwaith hwn, yn amodol ar ba mor gymhleth y mae eich ewyllys, ond dylai hyn gael ei esbonio yn y llythyr ymrwymo.

Mantais ychwanegol defnyddio cyfreithiwr yw y gall eich cynghori am unrhyw faterion a all godi yn ymwneud â Threth Etifeddu, ac efallai y bydd yn gallu cadw eich ewyllys yn ddiogel i chi – ond efallai y bydd tâl ychwanegol am wneud hynny. Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth ysgutorion ble mae'ch ewyllys yn cael ei chadw er mwyn iddynt allu dod o hyd iddi'n hawdd ar ôl i chi farw. Gweler yr adran 'Dewis ysgutorion' am fwy o wybodaeth am beth yw ysgutor a beth mae'n ei wneud (gweler tudalen 15).

### Mis Ewyllysiau am Ddim

Mae Mis Ewyllysiau am Ddim yn ymgyrch flynyddol yng Nghymru a Lloegr, sy'n digwydd bob mis Mawrth a mis Hydref. Bydd elusennau penodol yn cynnig cyfle i bobl dros 55 oed ysgrifennu ewyllys syml neu ddiweddaru eu hewyllys yn rhad ac am ddim â chyfreithiwr cyfrannog. Ewch i'r wefan Mis Ewyllysiau am Ddim am fwy o wybodaeth (tudalen 25).

### Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae ffeithlen Age UK **Cael cyngor cyfreithiol** yn cynnwys mwy o wybodaeth am gael cyngor proffesiynol. Gall Cymdeithas y Cyfreithwyr (tudalen 25) roi rhestr o gyfreithwyr lleol i chi.

### *Will Aid*
Mae *Will Aid* yn gynllun tebyg sy'n cael ei gynnal ledled y DU bob mis Tachwedd. Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran oedran, ond bydd gofyn i chi roi rhodd sy'n cefnogi gwaith y naw elusen sy'n rhan o'r cynllun. Mae gwefan *Will Aid* yn cynnwys mwy o wybodaeth (tudalen 26).

### Banciau
Mae rhai banciau'n cynnig gwasanaeth ysgrifennu ewyllys a chyngor ar gynllunio ystâd. Cysylltwch â'ch cangen leol i drefnu apwyntiad â chynghorydd, a fydd yn esbonio'r hyn y gall y banc ei gynnig. Mae'n bwysig darllen y print mân a bod yn glir ynghylch unrhyw gostau, gan fod rhai banciau'n codi tâl uchel am y gwasanaeth hwn.

### Gwneud eich ewyllys eich hun
Mae pecynnau a ffurflenni ar gael i'w prynu o siopau deunydd ysgrifennu ac ar-lein i chi wneud eich ewyllys eich hun, ond mae'n hawdd gwneud camgymeriadau, anghofio manylion pwysig neu beidio â bod yn hollol glir ynghylch beth sydd ei eisiau arnoch chi wrth eu llenwi.

Er y gallai ymddangos fel yr opsiwn hawsaf nawr, gall achosi problemau cyfreithiol costus i'ch buddiolwyr a'ch ysgutorion ar ôl i chi farw. Mae ewyllys yn ddogfen gyfreithiol, felly mae angen iddi gael ei hysgrifennu a'i llofnodi'n gywir, ac mae'n well cael cyngor proffesiynol.

***"Defnyddiais i gyfreithiwr i'm helpu gyda'm hewyllys."***
***Jeffrey, 84***



# Prisio eich ystâd

Dylai'ch ewyllys gynnwys eich ystâd gyfan, felly mae'n syniad da llunio rhestr o'ch holl asedau a'ch dyledion (gweler tudalen 12). Mae hyn yn rhoi syniad clir i chi o beth yw gwerth eich ystâd, sy'n gallu eich helpu i ysgrifennu eich ewyllys a phenderfynu sut yr hoffech ei dosbarthu.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae'n bwysig prisio eich asedau'n rheolaidd. Er enghraifft, gallai pris eich tŷ neu eich cronfa bensiwn fod wedi newid yn sylweddol ers i chi wirio'r tro diwethaf. Mae ein ffeithlen **Ymdrin ag ystâd** yn cynnwys mwy o wybodaeth.

Wrth feddwl am ystâd, mae nifer o asedau sy'n dod i'r meddwl a rhai sy'n aml yn cael eu methu. Fel arfer, mae'r asedau sy'n ffurfio ystâd yn cynnwys:

- eich cartref ac unrhyw eiddo arall rydych yn berchen arno
- cynilion mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu
- Cynilion Cenedlaethol, fel bondiau premiwm
- yswiriant, fel yswiriant bywyd neu bolisi gwaddol
- cronfeydd pensiwn sy'n cynnwys cyfandaliad wedi i chi farw
- buddsoddiadau fel stociau a chyfranddaliadau neu gwmnïau buddsoddi
- cerbydau modur
- gemwaith, creiriau ac eiddo personol arall
- dodrefn a phethau eraill sydd yn y cartref.

Gall fod yn anodd meddwl am ddyledion, ond nid yw eu hanwybyddu yn cael gwared arnynt – gall hyn achosi problemau pan ddaw'r amser i roi trefn ar eich ystâd. Felly, mae'n bwysig eich bod yn casglu'r holl wybodaeth sydd gennych amdanynt. Gallai dyledion gynnwys:

- morgais neu gynllun rhyddhau ecwiti
- balans cerdyn credyd
- gorddrafft gan y banc
- benthyciadau.

### Gwybodaeth ddefnyddiol

Wedi i chi lunio eich ewyllys, mae'n syniad da edrych arni o leiaf bob pum mlynedd ac ar ôl unrhyw newid mawr yn eich bywyd, fel profedigaeth, ysgariad neu ar ôl cael ŵyr neu wyres newydd.

# Beth i'w gynnwys yn eich ewyllys

Gall fod yn anodd meddwl am beth y mae arnoch chi eisiau, neu hyd yn oed angen, ei gynnwys yn eich ewyllys.

Y peth pwysicaf yw eich bod mor glir â phosibl am beth yr hoffech ddigwydd i'r asedau sy'n ffurfio eich ystâd. Wrth ysgrifennu eich ewyllys, dylech gynnwys:

- pwy yr hoffech iddynt elwa o'ch ewyllys
- a hoffech chi roi rhoddion penodol i bobl benodol
- lle yr hoffech i weddill yr ystâd fynd (unrhyw eiddo neu arian sydd dros ben ar ôl talu costau'r angladd a chostau gweinyddol, cymynroddion a threthi)
- beth yr hoffech ddigwydd os bydd unrhyw rai o'ch buddiolwyr yn marw cyn chi
- a hoffech chi adael unrhyw arian i elusen
- pwy fydd yn ymdrin â'ch ystâd ar ôl i chi farw.

## Llythyr dymuniadau

Mae llythyr dymuniadau yn ddogfen gyfrinachol sy'n gallu cyd-fynd ag ewyllys. Mae'n rhestru eitemau penodol yr hoffech eu rhoi i bobl ac mae fel arfer yn cynnwys eitemau sydd o bwysigrwydd personol, fel addurniadau, dodrefn neu emwaith. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn werth swm sylweddol o arian, cewch eich cynghori i ddatgan yr eitemau hyn yn eich ewyllys.

Yn wahanol i ewyllys, nid yw llythyr dymuniadau yn gyfreithiol rwym, felly dewiswch rywun y gallwch ymddiried ynddo/ynddi i barchu eich dymuniadau. Gall y llythyr hwn gael ei ddiwygio heb newid eich ewyllys.

# Llofnodi'r ewyllys

Efallai bod hyn yn swnio'n hawdd ond, mewn gwirionedd, mae hyn yn aml yn cael ei wneud yn anghywir a gall fod yn un o'r pethau mwyaf cyffredin sy'n achosi problemau wrth geisio rhoi trefn ar ystâd.

Os bydd yr ewyllys wedi'i llofnodi'n anghywir, ni fydd yn ddilys ac felly efallai na fydd eich dymuniadau'n cael eu parchu.

Er mwyn i'ch ewyllys fod yn ddilys, rhaid iddi gael ei llofnodi ym mhresenoldeb dau dyst annibynnol, y mae'n rhaid iddyn nhw hefyd ei llofnodi yn eich presenoldeb chi – felly, dylai'r tri unigolyn fod yn yr ystafell gyda'i gilydd pan fydd yn cael ei llofnodi.

Ni all unrhyw un sydd wedi'i r(h)estru'n fuddiolwyr yn yr ewyllys, ei briod/phriod neu bartner sifil, fod yn dyst neu bydd yn colli ei hawl i'r etifeddiaeth. Ni ddylai buddiolwyr fod yn yr ystafell pan fydd yr ewyllys yn cael ei llofnodi hyd yn oed. Hefyd, mae'n well peidio â gofyn i ysgutor fod yn dyst hefyd (ceir mwy o wybodaeth am ysgutorion ar dudalen 15).

# *Dewis ysgutorion*

Ysgutorion yw'r bobl sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am ymdrin â'ch ystâd ar ôl i chi farw. Gall bod yn ysgutor gynnwys llawer o waith a chyfrifoldeb, felly ystyriwch yn ofalus pwy fyddwch yn penodi.

Wrth ddewis eich ysgutor, dylech esbonio wrtho ef/wrthi hi beth fydd hynny'n ei gynnwys a gwirio ei fod/bod yn hapus â'r rôl honno.

Gallwch benodi uchafswm o bedwar ysgutor – yn aml, aelodau o'ch teulu a gweithiwr proffesiynol, fel cyfreithiwr, yw'r rhain. Mae'n syniad da dewis mwy nag un ysgutor i rannu'r cyfrifoldeb, a rhag ofn y bydd unrhyw un ohonynt yn marw cyn chi.

Gall y bobl rydych chi'n eu dewis i fod yn ysgutorion etifeddu o'ch ewyllys, ond nid ydynt yn cael eu talu am eu gwaith fel ysgutorion, fel arfer, heblaw am dreuliau parod rhesymol.

***"Mae pob un o'm tri o blant yn ysgutorion o'm hewyllys. Doeddwn i ddim eisiau rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw ar un ohonyn nhw'n unig." Cath, 73***

## Camau nesaf

Mae canllaw Age UK **Sut i fod yn ysgutor** yn cynnwys mwy o wybodaeth am y rôl.

### A oes rhaid i ysgutor fod yn aelod o'm teulu neu'n ffrind?

Nid yw bod yn ysgutor yn dasg hawdd ac efallai byddai'n well gan eich teulu a ffrindiau beidio ag ymgymryd â'r rôl honno. Gallech benodi ysgutor proffesiynol, fel cyfreithiwr neu gyfrifydd. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os yw eich ystâd yn fawr neu'n gymhleth, neu os oes siawns y bydd anghydfod rhwng eich anwyliaid. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod ysgutorion proffesiynol yn codi tâl am eu gwasanaethau, a bydd y ffi yn cael ei thalu o'ch ystâd.

- Gallwch ddod o hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn bod yn ysgutor drwy ffonio Cymdeithas y Cyfreithwyr (tudalen 25). Gall eich helpu i ddod o hyd i gyfreithwyr sy'n darparu gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol hefyd. Ni fydd yn argymell cyfreithiwr penodol, felly bydd angen i chi gymharu gwasanaethau a ffioedd.
- Gall Solicitors for the Elderly eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr yn eich ardal chi. Defnyddiwch yr offeryn ar y wefan i ddod o hyd i gyfreithwyr yn ôl eu henw, lleoliad neu arbenigedd (tudalen 26).
- Os nad oes gennych unrhyw un i fod yn ysgutor, mae swyddog y llywodraeth o'r enw'r Ymddiriedolwr Gwladol sy'n gallu gwneud hynny ar eich rhan. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ymddiriedolwr Gwladol (tudalen 26).



## Ymddiriedolaethau

Mae ymddiriedolaeth yn ffordd o edrych ar ôl asedau i bobl eraill, er enghraifft pan fydd rhywun yn rhy ifanc i reoli pethau. Os oes unrhyw un dan 18 oed yn fuddiolwr yr ymddiriedolaeth, dylech benodi o leiaf ddau ymddiriedolwr neu ysgutor. Dylech gael cyngor proffesiynol wrth greu ymddiriedolaeth. Os oes ymddiriedolaeth yn eich ewyllys, gall eich ysgutorion gael eu penodi'n ymddiriedolwyr hefyd.


Os oes gennych blentyn neu ŵyr/wyres ag anableddau dysgu, gall etifeddu arian yn uniongyrchol ei (g)wneud yn agored iawn i niwed. Mae Mencap yn cynnig gwasanaeth cyngor a gwybodaeth am ddim a fydd yn eich helpu drwy'r broses ac a fydd y gallu argymell cyfreithwyr arbenigol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i **www.mencap.org.uk/advice-and-support/wills-and-trusts-service**.

## Dogfennau pwysig sy'n ymwneud â'ch ewyllys

Pan fydd eich ysgutorion yn rhoi trefn ar eich ewyllys, gall fod yn ddefnyddiol iawn os ydynt yn gwybod lle'r ydych yn cadw dogfennau pwysig, fel:

- copi gwreiddiol o'r ewyllys
- gweithredoedd eich eiddo
- polisïau yswiriant
- dogfennau yn ymwneud â chyfrifon cynilion ac unrhyw fuddsoddiadau
- pasbort
- trwydded yrru
- dogfennau yn ymwneud â morgais neu fenthyciad
- biliau cyfleustodau.



## Penderfynodd Angela wneud ei hewyllys pan ddysgodd hi pa mor hawdd y gallai fod

### Roedd Angela, 60, yn poeni pan glywodd hi beth allai ddigwydd i'w hystâd pe na fyddai'n gwneud ewyllys.

'Roeddwn i newydd droi'n 60 oed ac wedi bod yn meddwl am wneud ewyllys ers peth amser. Ar ôl siarad gyda ffrind, a esboniodd pa mor hawdd yr oedd iddi hi, penderfynais i ddilyn ei hesiampl.

'Dywedodd fy ffrind wrthyf, heb ewyllys, byddai fy nghynilion a'm heiddo'n cael eu dosbarthu heb ystyried fy nymuniadau o gwbl. Roeddwn i eisiau gadael rhai trysorau teuluol i'm hwyres, ac roedd meddwl efallai na fyddai'n eu cael yn peri gofid i mi.

'Felly, siaradais i â chyfreithiwr lleol a threfnu i wneud fy ewyllys. Ar ôl gadael rhai pethau i'm teulu a ffrindiau, rhoddais i gymynroddion i nifer o elusennau hefyd.

## *“Siaradais i â chyfreithiwr lleol a threfnu i wneud fy ewyllys.”*

‘Roeddwn yn falch o allu cefnogi achosion da, ac roedd yn braf cael gwybod bod rhoddion i elusennau wedi’u heithrio rhag Treth Etifeddu.

‘Mae fy ewyllys yn penodi ysgutor hefyd, a ddewiswyd gen i i weinyddu fy ystâd a gwneud yn siŵr fod fy nymuniadau’n cael eu parchu.

‘Dwi’n teimlo cymaint yn well o wybod y bydd y bobl a’r achosion sy’n bwysig i mi yn elwa. Nawr, dwi’n atgoffa fy ffrindiau i wneud ewyllys neu ailedrych ar y manylion os oes ganddynt ewyllys yn barod.’





# Pethau eraill i'w hystyried

**Wrth i chi wneud eich ewyllys neu ddiweddaru un sy'n bodoli eisoes, mae ambell beth y dylech eu cadw mewn cof. Mae'r adran hon yn amlinellu sut i newid eich ewyllys ac yn esbonio rhai ystyriaethau o ran treth.**

## Sut i newid ewyllys

Wedi i chi lunio ewyllys, nid yw'n barhaol – gallwch ei newid. Mae bwrw golwg drosti bob pum mlynedd yn cynnig cyfle i chi ei newid, os ydych yn dymuno. Efallai yr hoffech ei newid ar ôl cael ŵyr neu wyres newydd neu ar ôl symud tŷ hefyd.



### Gwybodaeth ddefnyddiol

P'un a ydych chi eisiau gwneud newid mawr neu fach i'ch ewyllys, peidiwch â gwneud newidiadau i'r ddogfen wreiddiol – bydd angen i chi naill ai ychwanegu codisil neu wneud ewyllys newydd.

Os na fyddwch yn adolygu'ch ewyllys o dro i dro, gallai arwain at gymhlethdodau wrth ymdrin â'ch ystâd. Er enghraifft, efallai y bydd yn cyfeirio at dŷ nad ydych chi'n berchen arno mwyach, neu'n sôn am wyrion hŷn ond nid rhai iau.

Os byddwch yn priodi, yn ailbriodi neu'n mynd i bartneriaeth sifil, bydd hyn yn diddymu (canslo) unrhyw ewyllys a wnaethoch chi gynt. Os byddwch yn priodi, yn gwahanu neu'n ysgaru, dylech wneud ewyllys newydd. Nid yw ysgaru'n dirymu ewyllys a wnaed tra'r oeddech yn briod fel mater o drefn, ond mae'n gwahardd eich cyn-briod neu'ch cyn bartner sifil rhag elwa os yw wedi'i (h)enwi yn yr ewyllys.

Os hoffech wneud mân newid yn unig, gallwch wneud hynny gan ddefnyddio 'codisil'. Rhaid iddo gael ei lofnodi a'i dystio yn yr un ffordd â'r ewyllys (gweler tudalen 14 am fwy o wybodaeth am lofnodi eich ewyllys), ond nid oes angen i'r tystion fod yr un rhai â dystiodd llofnodi'r ewyllys, o reidrwydd.

Os hoffech chi wneud newid sylweddol, bydd angen i chi wneud ewyllys newydd sy'n diddymu'r hen un. Os byddwch yn diddymu hen ewyllys, dylech chi ddinistrio'r hen un neu ei gwneud yn glir ei bod wedi'i diddymu, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol.

# Treth Etifeddu

Ar hyn o bryd, nid oes angen i chi dalu unrhyw Dreth Etifeddu (IHT) ar £325,000 cyntaf eich ystâd. Yr enw ar hyn yw'r band cyfradd dim. Fodd bynnag, mae Treth Etifeddu'n cael ei thalu ar gyfradd o 40% ar gyfran eich ystâd sydd wedi'i phrisio uwchlaw'r band cyfradd dim.

Os byddwch yn gadael eich eiddo i'ch plentyn neu ŵyr/wyres, gallwch gael lwfans di-dreth ychwanegol o £175,000. Yr enw ar hyn yw'r band cyfradd dim preswyl ac mae'n faes cymhleth, felly dylech geisio cyngor arbenigol.

Nid oes unrhyw Dreth Etifeddu i'w thalu os byddwch yn gadael eich ystâd gyfan i'ch priod neu'ch partner sifil. Os bydd eich priod neu'ch partner sifil yn marw ac nid yw ei (h)ystâd yn defnyddio ei lwfans di-dreth i gyd, gall unrhyw lwfans heb ei ddefnyddio gael ei drosglwyddo i'ch ystâd chi.

Mae rhoddion i elusennau wedi'u heithrio'n gyfan gwbl rhag Treth Etifeddu ac, os yw eich ystâd yn agored i Dreth Etifeddu a'ch bod yn gadael 10% neu'n fwy ohoni i elusen, gallai cyfradd is o Dreth Etifeddu, sef 36%, fod yn berthnasol i weddill eich ystâd. Mae rheolau'n berthnasol i gyfradd is Treth Etifeddu, felly mae angen i chi gael cyngor proffesiynol.

Efallai yr hoffech roi arian ac eiddo i'ch buddiolwyr cyn i chi farw. Fodd bynnag, gallai rhoddion sy'n cael eu rhoi tra'r ydych yn fyw fod yn agored i Dreth Etifeddu o hyd, yn amodol ar eu gwerth a pha bryd y cawsant eu rhoi. Dylech gael cyngor cyn gwneud rhoddion yn ystod eich oes.

## Camau nesaf

Mae Treth Etifeddu yn faes cymhleth, felly dylech gael cyngor arbenigol, yn enwedig os oes ymddiriedolaethau ynghlwm. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth Profiant a Threth Etifeddu am fwy o wybodaeth (tudalen 26).

# *Mae'n hawdd parhau i gefnogi eich hoff achosion drwy adael rhodd yn eich ewyllys*

Pan rydym yn gwneud ewyllys, mae'n naturiol ein bod eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gofalu am ein hanwyliaid. Ond gallwch adael rhywbeth arbennig i'r achosion sy'n bwysig i chi yn eich ewyllys hefyd.

Mae ffyrdd gwahanol i adael rhodd yn eich ewyllys:

Ystâd weddilliol: cyfran o'ch ystâd sy'n cael ei rhoi ar ôl talu'r holl gostau a rhoddion eraill.

Rhodd ariannol: swm penodol o arian.

Rhodd benodol: eitem benodol fel tŷ, darn o emwaith neu ddarn o ddodrefn.

Os ydych yn bwriadu gadael rhodd i elusen yn eich ewyllys, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys enw llawn, cyfeiriad a rhif elusen gofrestredig yr elusen. Gallai gwybodaeth anghywir olygu na fydd eich elusen ddewisol yn cael y rhodd.

Gweler tudalen 22 i gael gwybodaeth am sut mae Treth Etifeddu (IHT) yn effeithio ar roddion i elusennau.

---

***"Dwi'n falch iawn fy mod yn gadael rhoddion i achosion sy'n bwysig i mi."***
***Rose, 88***

---

# *Sefydliadau defnyddiol*

**Age Cymru**

Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl yn hwyrach mewn bywyd drwy ein llinell gyngor ddwyieithog, cyhoeddiadau ac ar-lein.

I ddarganfod a oes cangen leol o Age Cymru yn agos atoch chi ac i archebu copïau am ddim o'n canllawiau gwybodaeth a'n ffeithlenni, ffoniwch:

**Cyngor Age Cymru 0300 303 44 98 (9am i 4pm, ddydd Llun – ddydd Gwener) neu anfonwch e-bost at: cyngor@agecymru.org.uk**

Os yw'n well gennych, gallwch gysylltu â ni drwy lythyr yn:

Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD.

Gwefan: **www.agecymru.org.uk/advice**

Yn Lloegr, cysylltwch ag
**Age UK Advice**: 0800 678 1602
www.ageuk.org.uk

Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag
**Age NI Advice Service**: 0808 808 7575
www.ageni.org

Yn yr Alban, cysylltwch ag
**Age Scotland**: 0800 124 4222
www.agescotland.org.uk

### Cyngor ar Bopeth

Rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau cyngor am ddim sy'n cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim, naill ai wyneb yn-wyneb neu dros y ffôn.

Ffôn: 0800 702 20 20

I gael manylion am eich canolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) agosaf, ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg

### Mis Ewyllysiau am Ddim

Mae sawl elusen yn dod at ei gilydd i gynnig cyfle i'r rhai 55 neu'n hŷn i ysgrifennu ewyllys neu ddiweddaru ewyllys â chyfreithwyr dethol yn rhad ac am ddim.

www.freewillsmonth.org.uk

### Cymdeithas y Cyfreithwyr

Y corff sy'n cynrychioli cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cynnig gwybodaeth am faterion cyfreithiol, gan gynnwys gwneud ewyllys. Cysylltwch â nhw neu defnyddiwch yr offeryn 'chwilio am gyfreithiwr' ar y wefan i ddod o hyd i gyfreithiwr.

www.lawsociety.org.uk

### Mencap

Elusen sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl ag anableddau dysgu.

Ffôn: 0808 808 1111
www.mencap.org.uk

### Llinell Gymorth Profiant a Threth Etifeddu

Gwybodaeth a chyngor ar brofiant a Threth Etifeddu, yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd cofrestru profiant lleol.

Ffôn: 0300 123 1072

### Ymddiriedolwr Cyhoeddus

Swyddog y llywodraeth sy'n gallu bod yn ysgutor os nad oes gennych unrhyw un addas i'w benodi/phenodi.

Ffôn: 020 3681 2759
www.gov.uk/public-trustee-executor-will

### *Solicitors for the Elderly*

Sefydliad cenedlaethol, annibynnol o gyfreithwyr, bargyfreithwyr a gweithredwyr cyfreithiol sy'n gallu cynnig cymorth i bobl hŷn a phobl fregus, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Ffôn: 0844 567 6173
www.sfe.legal

### Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

Rheoleiddiwr cyfreithwyr a chwmnïau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

Ffôn: 0370 606 2555
www.sra.org.uk

### *Will Aid*

Partneriaeth rhwng y proffesiwn cyfreithiol a nifer o elusennau yn y DU i helpu pobl i ysgrifennu ewyllysiau'n broffesiynol.

www.willaid.org.uk

# Helpwch ni i fod yna i rywun arall

Rydym yn gobeithio y bu'r canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi. Pan fydd pethau'n anodd, mae mor bwysig cael cefnogaeth. Wyddoch chi y gallech chi ein helpu i gyrraedd rhywun arall sydd angen ychydig o gymorth?

1

**Gwirfoddolwch gyda ni**

Mae pob rôl wirfoddol yn Age Cymru yn ein cefnogi i wella bywydau ac yn ein helpu i weithio tuag at Gymru oed gyfeillgar. Fodd bynnag, os hoffech gymryd rhan, byddem yn falch iawn o glywed gennych – **www.agecymru.org.uk/volunteer**

2

**Cofiwch amdanom yn eich ewyllys**

Trwy roi rhodd i Age Cymru yn eich ewyllys, gallwch wneud llawer i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth maent yn ei haeddu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gadewch fyd ychydig yn llai unig – **www.agecymru.org.uk/legacy**

3

**Rhowch rodd i ni**

Mae pob rhodd a gawn yn ein helpu i fod yno i rywun pan fydd ein hangen.

Mae £10 yn cyfrannu tuag at arbenigwr cwbl hyfforddedig i ymchwilio i ymholiadau gan bobl sy'n ffonio ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor am ddim.

Mae £20 yn cyfrannu tuag at gost cynhyrchu ein canllawiau gwybodaeth a'n ffeithlenni i bobl hŷn.

I gyfrannu, ffoniwch ni ar **029 2043 1555** neu ewch i **www.agecymru.org.uk/donate**

*Diolch!*

# *Beth ddylwn i ei wneud nawr?*

I gael mwy o wybodaeth am y materion sydd wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn, neu i archebu unrhyw rai o'n cyhoeddiadau, ffoniwch Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

Efallai yr hoffech chi ddarllen rhai o'n canllawiau perthnasol eraill hefyd, fel:

- **Meddwl am ddiwedd eich oes**
- **Sut i fod yn ysgutor**

Age Cymru

Creating an age friendly Wales

**0300 303 44 98**
**www.agecymru.org.uk**

Os nad yw manylion cyswllt eich cangen leol o Age Cymru yn y blwch isod, ffoniwch **0300 303 44 98**.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig rhif 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig: Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid lleol Age Cymru i ddarparu cymorth uniongyrchol i dros filiwn o bobl bob blwyddyn.

© Age Cymru 2021